# ASESIAD EFFAITH INTEGREDIG LLYWODRAETH CYMRU

**Ymgynghoriad y Papur Gwyn: “System Dribiwnlysoedd Newydd i Gymru”**

## CYNNWYS

Asesiad effaith integredig Llywodraeth Cymru ........ 1

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu hystyried a pham? ........ 3

Casgliad ........ 9

Datganiad ........ 13

Asesiadau Effaith Llawn ........ 14

A. Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant ........ 14

B. Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb ........ 21

C. Asesiad o’r effaith ar y Gymraeg ........ 30

D. Asesiad o’r Effaith ar Fioamrywiaeth ........ 36

## PA GAMAU Y MAE LLYWODRAETH CYMRU YN EU HYSTYRIED A PHAM?

### Cyd-destun

Un o nodweddion y corff o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yw eu datblygiad tameidiog dros lawer o flynyddoedd, cyn ac ar ôl datganoli. Cafodd nifer o'n tribiwnlysoedd datganoledig eu sefydlu cyn datganoli gan lywodraeth y Deyrnas Unedig bryd hynny, a'u gweinyddu gan yr adrannau a oedd wedi'u sefydlu. Datganolodd Deddf Llywodraeth Cymru 1998 rai meysydd i Gynulliad Cenedlaethol Cymru, gan gynnwys swyddogaethau ar gyfer tribiwnlysoedd a oedd yn gysylltiedig â'r meysydd hynny. Y rheswm pennaf am hyn yw bod tribiwnlysoedd bryd hynny yn cael eu hystyried yn un o swyddogaethau cangen weithredol y llywodraeth, wedi'u sefydlu gan yr adrannau o'r llywodraeth y cawsant eu creu i'w gwasanaethu, yn hytrach na swyddogaeth farnwrol.

Wrth gydnabod bod tribiwnlysoedd yn cyflawni swyddogaethau barnwrol, mae camau wedi'u cymryd i wahanu'r tribiwnlysoedd datganoledig oddi wrth y meysydd y cawsant eu dylunio i arfer barn drostynt. Cafodd y swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, yr uwch rôl farnwrol gyntaf sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â Chymru, ei chreu gan Ddeddf Cymru 2017 gyda swyddogaethau'n ymwneud â hyfforddiant, canllawiau a lles ar gyfer grŵp o dribiwnlysoedd - "Tribiwnlysoedd Cymru". [1] Fodd bynnag, mae tribiwnlysoedd eraill yn gweithredu yng Nghymru mewn meysydd datganoledig ond nad ydynt wedi'u diffinio fel Tribiwnlysoedd Cymru, ac sydd y tu allan i rôl goruchwylio Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

O ran Tribiwnlysoedd Cymru, mae camau gweinyddol wedi'u cymryd i sicrhau bod y cyfrifoldebau gweithredol o ddydd i ddydd yn annibynnol ar swyddogaethau polisi Llywodraeth Cymru, sef creu Uned Tribiwnlysoedd Cymru. Mae'r Uned yn gyfrifol am gymorth gweinyddol a gweithredol i Dribiwnlysoedd Cymru. Fodd bynnag, yn strwythurol, mae Uned Tribiwnlysoedd Cymru yn rhan o Lywodraeth Cymru ac wedi'i gwreiddio ynddi.

Felly, nodweddir y system bresennol o dribiwnlysoedd datganoledig gan ddiffyg cydlyniant strwythurol, er gwaethaf y camau a gymerwyd i sicrhau bod y system bresennol yn gweithredu mor effeithiol ag y gall o fewn cyfyngiadau'r fframweithiau deddfwriaethol presennol.

### Crynodeb o'r Cynnig

Mae'r Papur Gwyn yn nodi ein cynigion ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol i ddod â thribiwnlysoedd datganoledig ar wahân yng Nghymru ynghyd mewn strwythur unedig a chydlynol sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru.

Dyma'r prif gynigion yn y Papur Gwyn:

---

[1] Mae Tribiwnlysoedd Cymru wedi'u diffinio yn adran 59 o Ddeddf Cymru 2017.
Sef: Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru; Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru; Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru; Tribiwnlys Addysg Cymru; Panel Dyfarnu Cymru; a Thribiwnlys y Gymraeg.

- Fframwaith statudol ar gyfer system dribiwnlys sengl, unedig a chydlynol sy’n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bydd y system yn cael ei threfnu yn ôl y math o awdurdodaeth yn y siambrau, gyda hawliau clir a chyson i apelio ymhellach a bydd yn gallu cynnwys awdurdodaethau ychwanegol dros amser.

- Dyletswyddau statudol i gynnal annibyniaeth y system dribiwnlysoedd newydd a rhagor o annibyniaeth strwythurol o ran y ffordd mae’n cael ei gweinyddu.

- Arweinyddiaeth farnwrol ar gyfer y system dribiwnlysoedd newydd o dan nawdd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Llywyddion Siambr a Dirprwy Lywyddion.

- Prosesau clir ac effeithlon o osod rheolau gweithdrefnau ar gyfer y system dribiwnlysoedd newydd.

- Dulliau gweithredu cyson ar gyfer penodi aelodau o dribiwnlysoedd a phrosesau clir ar gyfer pennu cydnabyddiaeth ariannol, neilltuo, a delio â chwynion a/neu faterion disgyblu.

**Pa waith sy’n sail i’r cynigion?**

Mae corff sylweddol o waith a’r gwaith diwygio mewn awdurdodaethau eraill wedi dylanwadu ar y cynigion yn y Papur Gwyn hwn, yn bennaf:

a) Yr adroddiad gan Syr Andrew Leggatt (“adroddiad Leggatt”) [2] a’r cynigion ar gyfer diwygio tribiwnlysoedd yng Nghymru a Lloegr, ac eithrio tribiwnlysoedd datganoledig, a gafodd eu rhoi ar waith gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007 i sefydlu Tribiwnlys Haen Gyntaf unedig ac Uwch Dribiwnlys apeliadol, a’r ddau wedi’u rhannu’n siambrau;

b) y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd Pwyllgor Cymru, Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy’n Gweithredu yng Nghymru;[3]

c) adroddiad y Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru ar sefyllfa cyfiawnder gweinyddol yng Nghymru;[4]

d) Adroddiad y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru, (“Comisiwn Thomas”) [5]

e) adroddiad Comisiwn y Gyfraith.[6]

---

[2] Sir Andrew Leggatt (2001) Tribunals for Users One System, One Service: Report of the Review of Tribunals.
[3] y Cyngor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Pwyllgor Cymru (2010) Adolygiad o Dribiwnlysoedd sy’n Gweithredu yng Nghymru – adolygodd Llywodraeth Cymru ei weithrediad yn 2014.
[4] Pwyllgor Cyfiawnder Gweinyddol a Thribiwnlysoedd, Cymru, Cyfiawnder Gwenyddol: Sylfaen Cyfiawnder Cymdeithasol yng Nghymru
[5] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019) Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru.
[6] Comisiwn y Gyfraith (2021) Adroddiad Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru, (Comisiwn y Gyfraith rhif 403).

Roedd adolygiad Comisiwn y Gyfraith yn edrych ar bob agwedd ar y system bresennol o dribiwnlysoedd datganoledig ac yn darparu glasbrint ar gyfer diwygio er mwyn creu system unedig a chydlynol o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Wrth Sicrhau Cyfiawnder i Gymru[7], gwnaethom gymeradwyo egwyddorion argymhellion Comisiwn y Gyfraith. Mae'r argymhellion wedi bod yn sail i'n hymgysylltiad parhaus â rhanddeiliaid ar yr agenda diwygio tribiwnlysoedd ac maent yn sail i'n cynigion ar gyfer diwygio a nodir yn y Papur Gwyn.

## Pam mae angen deddfwriaeth sylfaenol?

Mae'r tribiwnlysoedd datganoledig sydd o fewn cwmpas ein cynigion ar gyfer diwygio i gyd yn cael eu llywodraethu gan eu fframweithiau deddfwriaethol eu hunain, sydd wedi datblygu'n dameidiog dros amser. Yn wahanol i lawer o dribiwnlysoedd a gedwir a ddiwygiwyd gan Ddeddf Tribiwnlysoedd, Llysoedd a Gorfodaeth 2007, mae'r tribiwnlysoedd datganoledig i gyd wedi aros fel y cawsant eu cyfansoddi adeg eu creu. Un o'r datblygiadau diweddar yw creu swyddfa Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru drwy Ddeddf Cymru 2017. Ond mae'r ddeddfwriaeth honno'n troshaenu'r fframweithiau deddfwriaethol presennol, ac mae swyddogaethau statudol y Llywydd yn gyfyngedig ac nid yw'n creu cyfanwaith cydlynol.

Felly, mae angen deddfwriaeth sylfaenol i fynd i'r afael â'r materion sy'n codi o'r fframweithiau deddfwriaethol presennol, sydd wedi'u datgysylltu i raddau helaeth, er mwyn sefydlu dull mwy clir, syml, effeithiol a chydlynol o weithredu system tribiwnlysoedd datganoledig Cymru.

## Effaith

Asesiad Effaith Integredig drafft yw hwn o'r cynigion sydd yn y Papur Gwyn. Mae'r Asesiad Effaith Integredig drafft yn ddogfen sy'n datblygu, ac rydym yn gofyn am dystiolaeth ychwanegol ac amgen i helpu i lywio ein cynigion. Bydd Asesiad Effaith Integredig diwygiedig yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr ag unrhyw Fil yn y dyfodol i fwrw ymlaen â'r cynigion.

Mae effeithiau cadarnhaol mwyaf arwyddocaol ein cynigion yn cynnwys:

- rhoi egwyddor annibyniaeth farnwrol wrth galon system dribiwnlysoedd Cymru;
- gwneud tribiwnlysoedd datganoledig yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd drwy'r strwythur unedig mwy cydlynol a'r modd i osod rheolau tribiwnlysoedd modern a chyfredol;
- gwella a hybu mynediad at gyfiawnder i bobl Cymru dros yr hirdymor drwy ddiogelu'r system dribiwnlysoedd at y dyfodol, felly wrth i gyfraith ddatganoledig

[7] Llywodraeth Cymru (2022) Sicrhau Cyfiawnder i Gymru.

barhau i dyfu, gellir ymgorffori llwybrau apelio pellach heb fawr o darfu, gan alluogi ein seilwaith cyfiawnder tribiwnlysoedd i dyfu a datblygu dros amser; a

- gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol lle mae cyfiawnder wedi'i ddatganoli ac mae Cymru'n gweinyddu ei system ehangach o lysoedd a thribiwnlysoedd.

Effeithiau negyddol mwyaf arwyddocaol ein cynigion fydd costau gweithredu'r diwygiadau a wneir gan y newid deddfwriaethol yr ydym yn ei gynnig a'r costau blynyddol rheolaidd i ariannu'r system dribiwnlysoedd newydd. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y costau hyn.

## Costau a manteision

Mae Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn cael ei gyhoeddi ochr yn ochr â'r Papur Gwyn, ynghyd â'r Asesiad Effaith Integredig drafft hwn. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft yn amlinellu asesiad costau a manteision o'r opsiynau i ddiwygio'r system bresennol o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, a'i llunio'n system unedig a chydlynol.

## Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

Mae'r pum ffordd o weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn cael eu defnyddio i ddatblygu a gweithredu'r cynigion ar gyfer diwygio'r system tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru sydd wedi'u cynnwys yn y Papur Gwyn.

### Yr hirdymor

Nod cynigion y Papur Gwyn yw cyflwyno system dribiwnlysoedd unedig a chydlynol yng Nghymru. Mae'r cynigion yn cael eu llywio gan gorff sylweddol o waith, fel yr amlinellir uchod, sydd wedi nodi'r sylfaen dystiolaeth a'r rhesymeg dros ddiwygio. Mae'r Papur Gwyn yn adeiladu'n benodol ar argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2021.

Mae'r amcanion ar gyfer cynnig strwythur newydd i dribiwnlysoedd Cymru yn edrych i'r hirdymor, ac maent yn ddeublyg. Yn gyntaf, creu system dribiwnlysoedd fodern i Gymru, gan ganolbwyntio ar fynediad at gyfiawnder ac ar anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd, a all fod yn hyderus bod y system yn gweithredu'n annibynnol ac mewn ffordd sy'n dyfarnu ar eu hanghydfodau yn gyfiawn, yn effeithlon ac yn brydlon. Yn ail, gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol lle mae cyfiawnder wedi'i ddatganoli ac mae Cymru'n gweinyddu ei system ehangach o lysoedd a thribiwnlysoedd.

### Atal

Mae diffyg cydlyniant strwythurol yn y system bresennol o dribiwnlysoedd datganoledig. Mae wedi cael ei wneud i weithio o fewn cyfyngiadau'r fframweithiau deddfwriaethol sy'n llywodraethu pob tribiwnlys datganoledig unigol.

Nid ydym yn ymwybodol o unrhyw bryderon ymarferol sylweddol ynghylch effeithiolrwydd neu degwch yn y system bresennol. Ond mae'n glir nad y trefniadau cyfredol yw'r rhai

gorau posibl. Nid yw'r ddeddfwriaeth sy'n rheoli pob tribiwnlys yng Nghymru yn cydnabod y ffordd yr ydym yn eu trin heddiw. Felly, mae gennym set o dribiwnlysoedd unigol, er mai bodoli ar wahân oedd yr unig fwriad iddynt erioed.

Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn felly'n mynd i'r afael â'r materion strwythurol sylfaenol a geir yn y system bresennol. Mae amcan diwygio tribiwnlysoedd wedi'i nodi uchod, sef creu system dribiwnlysoedd fodern sy'n ymateb i anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd ac sy'n gallu tyfu ac esblygu mewn ymateb i newid deddfwriaethol yn y dyfodol.

**Integreiddio**
Dywedodd Comisiwn Thomas nad yw tribiwnlysoedd Cymru wedi cael eu defnyddio'n ddigonol fel ffordd o orfodi deddfwriaeth Cymru.[8] Ym marn y Comisiwn:

> Dylai tribiwnlysoedd Cymru gael eu defnyddio i ddatrys anghydfodau sy'n ymwneud â deddfwriaeth Gymreig yn y dyfodol. Bu tuedd yn y ddeddfwriaeth a basiwyd gan y Cynulliad iddi nodi y dylid mynd ati i ddatrys anghydfodau yn y Llys Sirol neu yn y llysoedd a'r tribiwnlysoedd nad ydynt wedi'u datganoli. Ystyriwn fod hyn yn anghyson pan fo tribiwnlysoedd arbenigol yn bodoli yng Nghymru sydd â'r cymhwysedd a'r gallu i ddyfarnu ar anghydfodau.[9]

Daeth Comisiwn Thomas i'r casgliad hwn hefyd:

> Dylid pennu a darparu cyfiawnder yng Nghymru fel ei fod yn cyd-fynd â'i bolisi a'i wasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg penodol a chorff cynyddol cyfraith Cymru.[10]

Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn ar gyfer diwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig yn bwysig iddynt hwy eu hunain. Maent yn drawsbynciol eu natur ac yn effeithio ar feysydd polisi datganoledig, gan gynnwys iechyd, addysg a thai. Ond mae'r cynigion hefyd yn gamau pwysig ar daith hirach at setliad datganoli Cymru tuag at fframwaith cyfansoddiadol cynaliadwy sydd â'r cyfreithlondeb democrataidd mwyaf posibl, ac sydd yn y sefyllfa orau i ddiwallu anghenion pobl Cymru. Felly, mae'r cynigion yn cysylltu ac yn cyfrannu ar draws agenda polisi Llywodraeth Cymru. Byddant yn gwneud cyfraniad sylweddol tuag at wella gweithrediad y system gyfiawnder yng Nghymru ac yn gosod y sylfaen ar gyfer sut y byddai llysoedd a thribiwnlysoedd a wasanaethir yn gweithredu yng Nghymru.

**Cydweithio**
Mae'r cynigion yn y Papur Gwyn yn defnyddio adroddiad ac argymhellion Comisiwn y Gyfraith, a luniwyd yn dilyn trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghoriad cyhoeddus a gynhaliwyd rhwng 16 Rhagfyr 2020 a 31 Mawrth 2021. Rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth ddatblygu'r Papur Gwyn a byddwn yn parhau i wneud

---

[8] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019) Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru, Crynodeb Gweithredol, gweler paragraff 16.
[9] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019) Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru, paragraff 6.59.2, tudalen 291.
[10] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019) Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru, Crynodeb Gweithredol, gweler paragraff 4.

hynny wrth i ni ddatblygu'r cynigion deddfwriaethol ar gyfer deddfwriaeth sylfaenol yn dilyn yr ymgynghoriad.

**Cynnwys**

Hwn fydd yr ail ymgynghoriad ar gynigion i ddiwygio'r system dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad cyntaf gan Gomisiwn y Gyfraith i lywio ei adolygiad o'r gyfraith sy'n llywodraethu gweithrediad y tribiwnlysoedd datganoledig ac ystyriaethau ar gyfer diwygio. Mae cynigion y Papur Gwyn yn seiliedig ar ymgynghoriad Comisiwn y Gyfraith a'r argymhellion yn ei adroddiad terfynol ym mis Rhagfyr 2021. Yn ogystal â hyn, gwnaed argymhellion ar gyfer diwygio Tribiwnlysoedd Cymru fel rhan o'r adolygiad ehangach o'r system gyfiawnder yng Nghymru a gynhaliwyd gan Gomisiwn Thomas, a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Hydref 2019.

Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid wrth i ni ddatblygu'r Asesiad Effaith Integredig drafft hwn a byddwn yn cyhoeddi Asesiad Effaith Integredig diwygiedig ochr yn ochr ag unrhyw Fil yn y dyfodol i fwrw ymlaen â'r cynigion hyn.

## CASGLIAD

**Sut mae'r bobl sydd fwyaf tebygol o deimlo effeithiau'r cynnig wedi bod yn rhan o'r gwaith o'i ddatblygu?**

Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei "Bapur Ymgynghori ar Dribiwnlysoedd Dynodedig yng Nghymru"[11] ar 16 Rhagfyr 2020 a chynhaliwyd yr ymarfer ymgynghori tan 31 Mawrth 2021. Cafodd Comisiwn y Gyfraith gyfanswm o 42 ymateb i'r ymgynghoriad. Yn ogystal â hyn, yn ystod y cyfnod ymgynghori, roedd Comisiwn y Gyfraith yn bresennol mewn nifer o ddigwyddiadau a chyfarfodydd. Rhoddodd Nicolas Paines KC, Comisiynydd Cyfraith Gyhoeddus a'r Gyfraith yng Nghymru, dystiolaeth i Bwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a Chyfansoddiad y Senedd ar 22 Chwefror 2021 fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor i "Wneud i gyfiawnder weithio yng Nghymru".

Cyhoeddodd Comisiwn y Gyfraith ei argymhellion ar gyfer diwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru ym mis Rhagfyr 2021. Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn adeiladu ar yr argymhellion hynny. Maent hefyd yn adeiladu ar gorff sylweddol o waith sydd wedi galw am ddiwygio'r system dribiwnlysoedd ddatganoledig yng Nghymru, gan gynnwys Comisiwn Thomas, dan gadeiryddiaeth yr Arglwydd Thomas o Gwmgïedd, a gyflwynodd ei adroddiad ym mis Hydref 2019.

Wrth baratoi'r Papur Gwyn, rydym wedi ymgysylltu â rhanddeiliaid allweddol sydd wedi darparu mewnbwn gwerthfawr i'n galluogi i siapio'r cynigion sydd bellach wedi'u nodi yn y Papur Gwyn. Byddwn yn parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid yn ystod y cyfnod ymgynghori ac yn ceisio annog sbectrwm eang o ymgyngoreion i gymryd rhan. Bydd ymatebion i'r Papur Gwyn ac i'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a'r Asesiad Effaith Integredig drafft cysylltiedig yn llywio ac yn siapio'r cynigion deddfwriaethol sy'n angenrheidiol i ddiwygio system dribiwnlysoedd ddatganoledig Cymru.

Rydym yn croesawu awgrymiadau gan unrhyw grwpiau sy'n cynrychioli'r rheini y gallai ein cynigion effeithio arnynt – yn enwedig y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig, pobl ifanc a grwpiau iaith perthnasol – ar gyfer ymgysylltu pellach yn ystod y cyfnod ymgynghori a datblygu deddfwriaeth yn y dyfodol.

**Beth yw'r effeithiau mwyaf arwyddocaol – cadarnhaol a negyddol?**

Mae amcan y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ddeublyg. Yn gyntaf, creu system dribiwnlysoedd fodern i Gymru, gan ganolbwyntio ar fynediad at gyfiawnder ac ar anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd, a all fod yn hyderus bod y system yn gweithredu'n

---

[11] Papur Ymgynghori Tribiwnlysoedd Datganoledig yng Nghymru (Papur Ymgynghori 251).

annibynnol ac mewn ffordd sy'n dyfarnu ar eu hanghydfodau yn gyfiawn, yn effeithlon ac yn brydlon. Yn ail, gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol lle mae cyfiawnder wedi'i ddatganoli ac mae Cymru'n gweinyddu ei system ehangach o lysoedd a thribiwnlysoedd.

Mae'r cynigion yn rhoi sylw i faterion sy'n ymwneud â datblygiad tameidiog tribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru, diffyg cysondeb o ran y rheolau a'r gweithdrefnau sy'n eu llywodraethu a'r angen am fwy o annibyniaeth strwythurol yn y ffordd y cânt eu gweinyddu. Rydym yn cynnig creu strwythur tribiwnlysoedd unedig gyda Thribiwnlys Haen Gyntaf Cymru wedi'i rannu'n siambrau a Thribiwnlys Apêl i Gymru. Bydd y system dribiwnlysoedd newydd hon yn galluogi'r system dribiwnlysoedd yng Nghymru i ddelio'n well â datblygiadau sy'n deillio o ddeddfwriaeth yn y dyfodol. Bydd yn strwythur sy'n hyblyg o ran dyluniad ac sy'n gallu derbyn awdurdodaethau newydd heb fawr o darfu.

Rydym yn credu y bydd y diwygiadau arfaethedig yn cael effeithiau cadarnhaol sylweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

i. rhoi egwyddor annibyniaeth farnwrol wrth galon system dribiwnlysoedd Cymru;

ii. gwneud tribiwnlysoedd datganoledig yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr tribiwnlysoedd drwy'r strwythur unedig mwy cydlynol a'r modd i osod rheolau tribiwnlysoedd modern a chyfredol;

iii. gwella a hybu mynediad at gyfiawnder i bobl Cymru dros yr hirdymor drwy ddiogelu'r system dribiwnlysoedd at y dyfodol, felly wrth i gyfraith ddatganoledig barhau i dyfu, gellir ymgorffori llwybrau apelio pellach heb fawr o darfu, gan alluogi ein seilwaith cyfiawnder tribiwnlysoedd i dyfu a datblygu dros amser; a

iv. gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol lle mae cyfiawnder wedi'i ddatganoli ac mae Cymru'n gweinyddu ei system ehangach o lysoedd a thribiwnlysoedd.

Effeithiau negyddol mwyaf arwyddocaol ein cynigion fydd costau gweithredu'r diwygiadau a wneir gan y newid deddfwriaethol yr ydym yn ei gynnig a'r costau blynyddol rheolaidd i ariannu'r system dribiwnlysoedd newydd. Llywodraeth Cymru fydd yn gyfrifol am y costau hyn, ac rydym wedi cynnal asesiad rhagarweiniol ohonynt yn yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft.

**Yn sgil yr effeithiau a nodwyd, sut bydd y cynnig:**

- **yn cyfrannu cymaint â phosibl at ein hamcanion llesiant a'r saith nod llesiant; a/neu,**
- **yn osgoi, yn lleihau neu'n lliniaru unrhyw effeithiau negyddol?**

Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn cyfrannu at ymrwymiad ein Rhaglen Lywodraethu i fynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli plismona a chyfiawnder. Mae'r

cynigion yn cyfrannu at yr ymrwymiad hwn gan eu bod yn dangos y camau yr ydym yn eu cymryd yn ein meysydd cyfrifoldeb presennol i wella cyfiawnder yng Nghymru. O’r herwydd, mae’r cynigion yn feincnod o’r hyn y gellir ei gyflawni. Mae ymrwymiad y Rhaglen Lywodraethu i fynd ar drywydd yr achos dros ddatganoli plismona a chyfiawnder yn rhan o bortffolio gweinidogol y cyfansoddiad yn hytrach nag o fewn y grŵp o ymrwymiadau sy’n cyfrannu’n uniongyrchol at ein deg amcan.[12] Fodd bynnag, mae’r cynigion yn cyfrannu at bump o’r saith nod llesiant a ragnodir yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015, sydd wedi’u crynhoi yn y rhestr isod:

- **Cymru lewyrchus.** Mae’r cynigion yn defnyddio dull system gyfan i greu strwythur modern i system dribiwnlysoedd Cymru sydd, am y tro cyntaf mewn hanes cyfreithiol, yn creu corff apeliadol i Gymru, Tribiwnlys Apêl Cymru. Rydym yn gweld hyn yn cyfrannu at seilwaith Cymru fel cenedl ac yn ffordd o ddatblygu cyfraith ddatganoledig Cymru ymhellach mewn ffordd gydlynol ac unigryw Gymreig.

- **Cymru iachach.** Mae darparu cyfiawnder yn effeithiol yn gyfrwng sy’n galluogi pobl Cymru i sicrhau bod eu lleisiau’n cael eu clywed a gorfodi eu hawliau sylfaenol. Mae gwneud hynny’n cefnogi iechyd meddwl a chorfforol pobl.

- **Cymru sy’n fwy cyfartal.** Mae’r cynigion yn berthnasol i Gymru gyfan er mwyn creu system dribiwnlysoedd fodern i Gymru, gan ganolbwyntio ar fynediad at gyfiawnder ac ar anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd, a all fod yn hyderus bod y system yn eu trin yn gyfartal ac yn gweithredu’n annibynnol ac mewn ffordd sy’n dyfarnu ar eu hanghydfodau yn gyfiawn, yn effeithlon ac yn brydlon.

- **Cymru o gymunedau cydlynus.** Mae’r cynigion yn gosod y sylfaen ar gyfer ein seilwaith tribiwnlysoedd gan alluogi’r system dribiwnlysoedd i esblygu dros amser wrth i gyfraith ddatganoledig dyfu. Mae’r cynigion hefyd yn gosod y sylfaen ar gyfer dyfodol lle mae cyfiawnder wedi’i ddatganoli ac mae Cymru’n gweinyddu ei system ehangach o lysoedd a thribiwnlysoedd. Mae hyn i gyd yn cyfrannu at seilwaith Cymru fel cenedl ac yn cefnogi ei chymunedau i fod yn hyfyw, yn ddiogel ac i gael cysylltiadau da.

- **Cymru â diwylliant bywiog lle mae’r Gymraeg yn ffynnu**. Mae’r cynigion yn adeiladu sefydliadau cyfiawnder Cymru. Mae un system gydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig yn creu’r amgylchedd gorau posibl i hwyluso darparu gwasanaethau tribiwnlysoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Er y bydd yr effaith ar y Gymraeg yn anuniongyrchol, rydym o’r farn y bydd yn effaith fanteisiol ac yn un sy’n cyfrannu at ein strategaeth, Cymraeg 2050.

[12] Y Rhaglen Lywodraethu – Diweddariad, gweler tudalennau 2, 9 a 15.

**Sut bydd effaith y cynnig yn cael ei monitro a'i gwerthuso wrth i'r cynnig ddatblygu, ac ar ôl iddo ddod i ben?**

Mae'r Asesiad Effaith Integredig drafft hwn yn cyd-fynd â'r Papur Gwyn, ynghyd â'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft sy'n nodi asesiad cost a budd cychwynnol o'r opsiynau i ddiwygio'r system bresennol o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru.

Bydd yr holl ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hadolygu a'u defnyddio i fireinio'r cynigion ymhellach fel rhan o'r broses o ddatblygu deddfwriaeth yn y maes hwn. Bydd fersiynau diwygiedig o'r Asesiad Effaith Integredig a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol yn cael eu cyhoeddi i gyd-fynd ag unrhyw Fil yn y dyfodol.

Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer y cynigion drwy gamau'r prosiect diwygio tribiwnlysoedd, gan gynnwys y cam datblygu deddfwriaethol, ac ar ei ddiwedd. Bydd hyn yn cynnwys monitro a gwerthuso effeithiau.

## DATGANIAD

**Datganiad**

Rwyf yn fodlon bod effaith y cam arfaethedig wedi cael ei hasesu a’i chofnodi’n ddigonol.

Enw’r Prif Berchennog Cyfrifol / Dirprwy Gyfarwyddwr: **James Gerard, Dirprwy Gyfarwyddwr, yr Is-adran Polisi Cyfiawnder**

Adran: **Yr Economi, y Trysorlys a’r Cyfansoddiad**

Dyddiad: 9 Mehefin 2023

# ASESIADAU EFFAITH LLAWN

## A. ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

### 1. Effaith pa benderfyniad ydych chi'n ei asesu?

1.1. Mae'r Asesiad drafft hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant hwn yn ymwneud â chynigion a nodir yn ein Papur Gwyn "System Dribiwnlysoedd Newydd i Gymru", ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion ar gyfer system fodern i dribiwnlysoedd datganoledig Cymru.

1.2. Un o nodweddion y corff o dribiwnlysoedd datganoledig yng Nghymru yw eu datblygiad tameidiog dros lawer o flynyddoedd, cyn ac ar ôl datganoli. Cafodd nifer o'n tribiwnlysoedd datganoledig eu sefydlu cyn datganoli gan lywodraeth y Deyrnas Unedig bryd hynny, a'u gweinyddu gan yr adrannau a oedd wedi'u sefydlu. Er enghraifft, roedd Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn cael ei weinyddu gan Adran Iechyd yr hen Swyddfa Cymru. Er bod y system dribiwnlysoedd yng Nghymru yn darparu gwasanaeth teilwng i bobl Cymru, mae'r fframweithiau deddfwriaethol sy'n sail iddi yn hen ac yn anhyblyg, ac nid ydynt yn gydlynol. Mae datblygiadau diweddar wedi golygu bod Deddf Cymru 2017 yn creu swydd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru gyda swyddogaethau mewn perthynas â Thribiwnlysoedd Cymru. Ond mae'r ddeddfwriaeth honno'n troshaenu'r fframweithiau sy'n bodoli eisoes ac nid yw'n creu cyfanwaith cydlynol.

1.3. Mae ffordd fwy clir, syml, effeithiol a chydlynol o weithredu system dribiwnlysoedd Cymru yn hollbwysig i'r achos o sicrhau cyfiawnder i bobl Cymru. Dyma'r prif ddiwygiadau sy'n cael eu cynnig yn y Papur Gwyn:

a) fframwaith statudol ar gyfer un system dribiwnlysoedd unedig a chydlynol sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a drefnir yn ôl y math o awdurdodaeth gyda hawliau clir a chyson i apelio ymlaen i Dribiwnlys Apêl Cymru;

b) dyletswyddau statudol i gynnal annibyniaeth y system dribiwnlysoedd newydd a rhagor o annibyniaeth strwythurol o ran y ffordd mae'n cael ei gweinyddu;

c) arweinyddiaeth farnwrol ar gyfer y system dribiwnlysoedd newydd o dan nawdd Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru, Llywyddion Siambr a Dirprwy Lywyddion;

d) prosesau clir ac effeithlon o osod rheolau gweithdrefnau ar gyfer y system dribiwnlysoedd newydd;

e) dulliau gweithredu cyson ar gyfer penodi aelodau o dribiwnlysoedd a phrosesau clir ar gyfer pennu cydnabyddiaeth ariannol, neilltuo, a delio â chwynion a/neu faterion disgyblu.

1.4. Mae'r tribiwnlysoedd datganoledig sydd o fewn cwmpas y cynigion ar gyfer diwygio yn cynnwys y saith tribiwnlys datganoledig unigol sydd wedi'u grwpio gyda'i gilydd gan Ddeddf Cymru 2017 fel "Tribiwnlysoedd Cymru", ynghyd â Thribiwnlys Prisio Cymru, paneli apêl derbyniadau i ysgolion a phaneli apêl gwaharddiadau o ysgolion. Mae awdurdodaethau Tribiwnlys Addysg Cymru, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, paneli apêl derbyniadau i ysgolion a phaneli apêl gwaharddiadau o ysgolion yn arbennig o berthnasol i blant a phobl ifanc.

1.5. Tribiwnlys Addysg Cymru yw un o "Tribiwnlysoedd Cymru", ac mae pob un ohonynt yn cael eu gweinyddu gan Lywodraeth Cymru ar hyn o bryd. Mae Tribiwnlys Addysg Cymru yn gwneud penderfyniadau ar apeliadau ynghylch anghenion dysgu ychwanegol neu anghenion addysgol arbennig a hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.

1.6. Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn un arall o Dribiwnlysoedd Cymru. Mae Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn gwrando ar geisiadau gan neu ar ran y rheini a gadwyd mewn ysbyty yng Nghymru, neu gan berson sy'n preswylio yng Nghymru sydd wedi'i ryddhau i'r gymuned o dan amodau neu'n dod o dan warcheidwaeth o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983, fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf Iechyd Meddwl 2007. Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru sy'n delio â'r nifer fwyaf o geisiadau o holl Dribiwnlysoedd Cymru. Oherwydd natur gwaith Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, cynhelir y rhan fwyaf o'i wrandawiadau mewn ysbytai seiciatrig.

1.7. Bydd awdurdodaethau Tribiwnlysoedd Cymru yn trosglwyddo i Dribiwnlys Haen Gyntaf newydd Cymru, a bydd y gwaith hwnnw'n cael ei drefnu'n siambrau. Rydym yn cynnig bod awdurdodaeth Tribiwnlys Addysg Cymru yn trosglwyddo i'r Siambr Addysg ac mae awdurdodaeth Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru yn trosglwyddo i Siambr Iechyd Meddwl Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

1.8. Caiff paneli apêl derbyniadau i ysgolion a phaneli apêl gwaharddiadau o ysgolion eu gweinyddu gan yr awdurdod lleol sy'n gyfrifol am yr ysgol dan sylw. Mae paneli apêl derbyniadau i ysgolion yn gwrando ac yn penderfynu ar apeliadau yn erbyn penderfyniadau'r awdurdod derbyn. Gall y paneli apêl derbyniadau gyfarwyddo bod plentyn i gael lle mewn ysgol benodol. Bydd y penderfyniad hwnnw'n rhwymo'r awdurdod derbyn a chorff llywodraethu'r ysgol gymunedol neu ysgol wirfoddol a reolir lle mae'r paneli'n penderfynu y dylai'r plentyn gael ei leoli. Mae'r paneli apêl gwaharddiadau o ysgolion yn gwrando apeliadau yn erbyn penderfyniadau pwyllgorau disgyblu cyrff llywodraethu ar waharddiadau parhaol. Mae paneli apêl gwaharddiadau yn rhoi penderfyniadau sy'n rhwymo a gallant orchymyn bod disgybl yn cael ei dderbyn yn ôl.

1.9. Nid oes gennym unrhyw amheuaeth nad yw'r rheini sy'n ymwneud â gwneud penderfyniadau paneli apêl derbyniadau i ysgolion a gwaharddiadau o ysgolion yn gwneud hynny gyda lles gorau'r plentyn mewn golwg. Nid oes gennym unrhyw

amheuaeth y byddant yn ymwybodol, er enghraifft, fod canlyniadau gwaharddiadau o ysgol i blentyn ac i ysgol o’r arwyddocâd mwyaf. Ond gallai’r trefniadau presennol fod yn well. Mae Comisiwn Thomas wedi dweud:

> Mae'n bryder gennym nad yw paneli apêl derbyniadau i ysgolion a gwaharddiadau o ysgolion yn gweithredu heb unrhyw fath o graffu barnwrol, ar wahân i'r achosion prin iawn hynny lle bydd gwaharddiad yn arwain at gais am adolygiad barnwrol. Mae rôl barnwyr yn y gwaith o ddyfarnu ar anghydfodau'n ymwneud ag addysg disgyblion wedi cynyddu'n raddol dros amser wrth i swyddogaethau cyrff cyhoeddus gynyddu. Credwn fod angen arfarniad trwyadl o'r ffordd y gweithredir paneli apêl awdurdodau lleol, a goruchwyliaeth gan Lywydd Tribiwnlysoedd Cymru o'u prosesau gwneud penderfyniadau.[13]

1.10. Clywodd Comisiwn y Gyfraith dystiolaeth hefyd fod amheuon mewn rhai achosion ynghylch annibyniaeth y paneli hyn, ac felly bod penderfyniadau’n cael eu gwneud yn briodol er budd y plentyn. Daeth i’r casgliad, am y tro o leiaf, y gallai paneli apêl derbyniadau i ysgolion aros y tu allan i’r system dribiwnlysoedd unedig newydd, ond y dylid trosglwyddo awdurdodaeth paneli apêl gwaharddiadau o ysgolion i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru.

1.11. Mae’n bwysig ar sail ymarferol bod y broses o gronni awdurdodaethau newydd yn y Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru yn cael ei chyflwyno’n raddol a bod rhywfaint o flaenoriaethu, yn seiliedig ar bwysigrwydd y pwnc a’r cymhlethdod logistaidd ymysg ffactorau eraill. Mae penderfyniadau gwaharddiadau o ysgolion yn arbennig o bwysig i’r plentyn dan sylw. Rydym yn cytuno ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith y dylai paneli apêl derbyniadau i ysgolion barhau i gael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, rydym yn cynnig gwneud darpariaeth ar gyfer hawl i apelio i Siambr Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru ar bwyntiau cyfreithiol o benderfyniadau paneli apêl derbyniadau i ysgolion.

1.12. O ran gwaharddiadau o ysgolion, mae’n hanfodol bod y broses o wneud penderfyniadau yn gyson ac yn gwbl annibynnol. Felly, rydym yn cytuno ag argymhelliad Comisiwn y Gyfraith, ac yn cynnig trosglwyddo awdurdodaeth paneli apêl gwaharddiadau o ysgolion i Siambr Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru i eistedd o fewn awdurdodaeth Tribiwnlys Addysg presennol Cymru.

1.13. Un o amcanion y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yw dylunio hyblygrwydd i’r system dribiwnlysoedd newydd sy’n gallu ymgorffori awdurdodaethau yn y system cyfiawnder yng Nghymru a allai godi yn y dyfodol. Er enghraifft, mae’r Comisiwn ar Ddyfodol y DU (y cyfeirir ato’n gyffredin fel Comisiwn Brown) a sefydlwyd gan Blaid Lafur y DU wedi argymell datganoli cyfiawnder ieuenctid i

[13] Y Comisiwn ar Gyfiawnder yng Nghymru (2019) Cyfiawnder yng Nghymru dros Bobl Cymru, paragraff 6.47, tudalen 287.

Gymru. Mewn sawl ffordd, gallai lleoliad tribiwnlys fod yn well na llys ar gyfer materion cyfiawnder ieuenctid, gan fod tribiwnlysoedd yn ddull mwy anffurfiol o ddyfarnu ar faterion o'u cymharu â llysoedd. Felly, rydym yn cynnig parhau i ystyried datganoli cyfiawnder ieuenctid a sut byddai'n gweddu i'r system dribiwnlysoedd newydd, er enghraifft plethu cyfiawnder ieuenctid ag ystod ehangach o faterion sy'n ymwneud â'r plentyn gan gynnwys lles, iechyd ac addysg.

## 2. Casglu tystiolaeth a gweithio gyda phlant a phobl ifanc

2.1. Cafodd argymhellion Comisiwn y Gyfraith ar gyfer diwygio'r tribiwnlysoedd datganoledig eu llywio gan ymgynghoriad cyhoeddus rhwng mis Rhagfyr 2020 a mis Mawrth 2021. Ymatebodd Cymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar Cymru i'r ymgynghoriad a thynnu sylw at y ffaith bod angen sicrhau bod y Tribiwnlys Haen Gyntaf yn cadw'r gallu a'r arbenigedd i gynorthwyo gyda materion Anghenion Dysgu Ychwanegol wrth ymgymryd â swyddogaethau Tribiwnlys Addysg Cymru. Cytunodd y Gymdeithas â chynigion Comisiwn y Gyfraith i baneli apêl derbyniadau i ysgolion aros y tu allan i'r system dribiwnlysoedd unedig am y tro oherwydd yr effaith y byddai nifer yr apeliadau o'r fath yn ei chael ar Dribiwnlys Addysg Cymru.

2.2. Bydd y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn agored ar gyfer ymgynghoriad cyhoeddus a byddant yn cael eu cyhoeddi ar wefan Llywodraeth Cymru ochr yn ochr ag Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft ac Asesiad Effaith Integredig drafft. Yn ystod y cyfnod ymgynghori, byddwn yn ystyried sut rydym yn ymgysylltu'n well ac ymhellach â phlant a phobl ifanc ynghylch y cynigion ar gyfer diwygio tribiwnlysoedd ac yn enwedig yr elfennau hynny o'r agenda ddiwygio sy'n fwy perthnasol iddynt, eu mynediad at gyfiawnder a'u gallu i orfodi eu hawliau.

2.3. Rydym yn datblygu ein dull gweithredu ar gyfer sut y byddwn yn ceisio ymgysylltu â phlant a phobl ifanc neu eu cynrychiolwyr yn ystod y cyfnod ymgynghori, yn enwedig mewn perthynas â'r elfennau hynny o'r agenda ddiwygio sy'n fwy perthnasol iddynt. Fel rhan o hyn, rydym yn bwriadu ymgysylltu â swyddfa Comisiynydd Plant Cymru a gweithio gyda'r arbenigwyr perthnasol yn Llywodraeth Cymru i gael mewnbwn a chyngor.

2.4. Wrth i ni ddatblygu cynigion deddfwriaethol, byddwn yn parhau i adolygu'r Asesiad drafft hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

## 3. Dadansoddi’r dystiolaeth ac asesu’r effaith

3.1. Rydym wedi ystyried sut mae’r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn effeithio ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn (“CCUHP”). Yr Erthyglau rydym yn credu y gallent fod yn berthnasol yw Erthygl 1, 2, 3, 4, 5, 6, 12, 13, 16, 18, 23 a 28. Aseswyd bod gweddill yr Erthyglau’n amherthnasol. Rydym wedi dod i’r casgliad nad oes unrhyw effeithiau negyddol wedi’u nodi ar gyfer plant neu bobl ifanc sy’n deillio o’r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn. Bwriad y cynigion yw creu system dribiwnlysoedd fodern lle mai annibyniaeth farnwrol fydd yr egwyddor arweiniol a fydd yn llywio’r ffordd y bydd y sefydliadau barnwrol newydd yn cael eu cefnogi yng Nghymru.

| **Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau’r Plentyn neu Brotocol Dewisol** | **Gwelliannau** | **Heriau** | **Esboniad** |
|---|---|---|---|
| Erthygl 1: Mae gan bawb dan 18 oed yr holl hawliau yn y Confensiwn hwn. | **X** | | Bydd y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn sefydlu system dribiwnlysoedd fodern lle mai annibyniaeth farnwrol fydd yr egwyddor arweiniol a fydd yn llywio’r ffordd y bydd y sefydliadau barnwrol yn y system newydd yn cael eu cefnogi yng Nghymru. Bydd y cynigion yn gwneud penderfyniadau am faterion sy’n effeithio ar blant a phobl ifanc yn y system dribiwnlysoedd, er enghraifft penderfyniadau gwahardd o’r ysgol sy’n bwysig iawn i’r plentyn dan sylw ac i’r ysgol. Er y bydd paneli apêl derbyniadau i ysgolion yn parhau i gael eu gweinyddu gan awdurdodau lleol am y |
| Erthygl 2: Mae’r Confensiwn yn berthnasol i bawb beth bynnag fo’u hil, crefydd, gallu, beth bynnag y maent yn ei feddwl neu’n ei ddweud neu ba fath bynnag o deulu y maent yn dod ohono. | **X** | | |
| Erthygl 3: Dylai pob sefydliad sy’n ymwneud â phlant weithio at yr hyn sydd orau i bob plentyn. | **X** | | |
| Erthygl 4: Dylai llywodraethau sicrhau bod yr hawliau hyn ar gael i blant. | **X** | | |
| Erthygl 5: Dylai llywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau teuluoedd i gyfarwyddo ac arwain eu plant fel eu bod, wrth iddynt dyfu, yn dysgu sut i ddefnyddio eu hawliau’n briodol. | **X** | | |
| Erthygl 6: Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Dylai llywodraethau sicrhau bod | **X** | | |

| Erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn neu Brotocol Dewisol | Gwelliannau | Heriau | Esboniad |
|---|---|---|---|
| plant yn goroesi ac yn datblygu'n iach | | | tro, rydym yn cynnig darparu ar gyfer hawl i apelio i Siambr Addysg Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru ar bwyntiau cyfreithiol o benderfyniadau paneli apêl derbyniadau i ysgolion, gan gynnwys goruchwyliaeth farnwrol mewn prosesau gwneud penderfyniadau ar y materion hynny. |
| Erthygl 12: Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i gael rhywun i ystyried eu barn. | **X** | | |
| Erthygl 13: Mae gan blant yr hawl i gael gafael ar wybodaeth a'i rhannu ar yr amod nad yw'r wybodaeth yn niweidiol iddyn nhw nac i eraill | **X** | | |
| Erthygl 16: Mae gan blant yr hawl i breifatrwydd. Dylai'r gyfraith eu hamddiffyn rhag ymosodiadau yn erbyn eu ffordd o fyw, eu henw da, eu teuluoedd a'u cartrefi. | **X** | | |
| Erthygl 18: Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent bob amser ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn. Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio. | **X** | | |
| Erthygl 23: Dylai plant sydd ag unrhyw fath o anabledd gael cefnogaeth a chymorth arbennig fel y gallant fyw bywydau llawn ac annibynnol. | **X** | | |
| Erthygl 28: Mae gan blant yr hawl i addysg. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas dynol plant. Dylai addysg gynradd fod am ddim. Dylai gwledydd cyfoethog helpu gwledydd tlotach i gyflawni hyn. | **X** | | |

## 4. Monitro ac Adolygu

4.1. Wrth i ni ddatblygu cynigion deddfwriaethol, byddwn yn parhau i adolygu'r Asesiad drafft hwn o'r Effaith ar Hawliau Plant.

4.2. Mae deddfwriaeth sylfaenol yn un o elfennau allweddol y prosiect diwygio tribiwnlysoedd, a dyma'r unig ffordd y gellir cyflawni'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn. Byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i weithredu'r diwygiadau a wnaed gan y newidiadau deddfwriaethol rydym yn eu cynnig. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i ddylunio a datblygu adolygiad ar ôl gweithredu o'r newidiadau deddfwriaethol y bydd ein cynigion yn eu cyflawni, yn ogystal ag adolygiad o'r gwaith o gyflawni'r prosiect diwygio tribiwnlysoedd. Yn yr hirdymor, bydd llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl profiad defnyddwyr tribiwnlysoedd, gan gynnwys plant a phobl ifanc, a mynediad at gyfiawnder y mae'r gwasanaeth tribiwnlys newydd yn ei ddarparu.

## B. ASESIAD O'R EFFAITH AR GYDRADDOLDEB

**1. Disgrifiwch ac esboniwch effeithiau'r cynnig ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y'u disgrifir yn Neddf Cydraddoldeb 2010.**

1.1. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn gosod Dyletswydd Cydraddoldeb Cyffredinol ar awdurdodau cyhoeddus Cymru i roi sylw dyledus i'r angen i gael gwared ar wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu ac erledigaeth, yn ogystal â hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin cysylltiadau da rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchodedig a'r rheini nad oes ganddynt y nodwedd honno.

1.2. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn diogelu pobl rhag gwahaniaethu oherwydd y nodweddion gwarchodedig sydd gan bawb. Mae pobl yn cael eu diogelu rhag gwahaniaethu yn y gweithle pan fyddant yn defnyddio busnesau a sefydliadau eraill sy'n darparu gwasanaethau a phan fyddant yn dod i gysylltiad â chyrff cyhoeddus.

1.3. Bydd y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn cyfuno tribiwnlysoedd datganoledig sydd ar wahân yng Nghymru ar hyn o bryd mewn un strwythur unedig a chydlynol . Bydd yn cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru a fydd dan oruchwyliaeth ac arweinyddiaeth farnwrol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru.

1.4. Rydym yn rhagweld y bydd y cynigion yn gwneud tribiwnlysoedd datganoledig yn fwy hygyrch i ddefnyddwyr yn gyffredinol, yn enwedig wrth i reolau gweithdrefnol gael eu diwygio. Bydd y cynigion hefyd yn caniatáu i Weinidogion Cymru symud swyddogaethau'n haws o'r llysoedd ac i awdurdodaeth tribiwnlys. Rydym o'r farn y bydd hyn yn cael effaith gadarnhaol gan fod tribiwnlysoedd yn cael eu hystyried yn fwy hygyrch yn gyffredinol. Yn benodol, maent yn fwy cost-effeithiol, yn gweithredu mewn ffordd sy'n gyffredinol llai ffurfiol ac yn meddu ar brosesau a gweithdrefnau sy'n haws eu deall.

1.5. Ein hasesiad yw, yn gyffredinol, nad yw'r cynigion yn debygol o effeithio'n sylweddol ar unigolion sydd â nodweddion gwarchodedig oherwydd gwelliant cyffredinol o ran hygyrchedd i bawb sy'n defnyddio'r tribiwnlys. Nid ydym wedi nodi unrhyw effeithiau niweidiol o ganlyniad i'n hasesiad o effaith y cynigion ar bobl â nodweddion gwarchodedig fel y nodir yn y tabl isod.

1.6. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn mynnu bod cyrff yn y sector cyhoeddus yn cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus a byddem yn

disgwyl i hyn fod yn berthnasol i’r corff hyd braich arfaethedig newydd a fydd yn gyfrifol am weinyddu’r system dribiwnlysoedd newydd.

1.7. Byddwn yn parhau i adolygu’r Asesiad o’r Effaith ar Gydraddoldeb wrth i gynigion deddfwriaethol ddatblygu. Rydym yn croesawu sylwadau gan ymgyngoreion, gan gynnwys a oes unrhyw effeithiau nad ydym wedi’u nodi.

## 2. Cofnod o’r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig:

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi’n lliniaru’r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Oed (meddwl am wahanol grwpiau oedran) | Er ein bod yn disgwyl i'n cynigion effeithio’n gadarnhaol ar bawb, nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau penodol o ran oedran. | Mae’r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ceisio creu strwythur unedig a chydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig sy’n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bydd awdurdodaethau presennol tribiwnlysoedd datganoledig yn trosglwyddo i’r system dribiwnlysoedd newydd ac yn cael eu hymgorffori ynddi, a bydd dulliau gwahanol ar hyn o bryd o ymdrin â materion gan gynnwys recriwtio barnwrol a phennu rheolau a gweithdrefnau | Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol ac felly ni asesir bod angen unrhyw fesurau lliniaru. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | | tribiwnlysoedd yn cael eu symleiddio i'w cymhwyso ar draws y system dribiwnlysoedd yn ei chyfanrwydd yn hytrach nag fel y'i cynlluniwyd ar gyfer tribiwnlysoedd unigol. | |
| Anabledd (ystyriwch y model cymdeithasol o anabledd[14] a'r ffordd y gallai eich cynnig achosi'r rhwystrau sy'n gwneud pobl â gwahanol fathau o amhariadau yn anabl, neu'r ffordd y gellid defnyddio'r cynnig i ddileu'r rhwystrau hyn) | Er ein bod yn disgwyl i'n cynigion effeithio'n gadarnhaol ar bawb, nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau penodol o ran pobl anabl. | Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ceisio creu strwythur unedig a chydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bydd awdurdodaethau presennol tribiwnlysoedd datganoledig yn trosglwyddo i'r system dribiwnlysoedd newydd ac yn cael eu hymgorffori ynddi. | Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol ac felly ni asesir bod angen unrhyw fesurau lliniaru. |
| Ailbennu Rhywedd (y weithred o | Er ein bod yn disgwyl i'n cynigion effeithio'n gadarnhaol ar bawb, | Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ceisio creu strwythur | Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y cynigion yn cael |

[14] Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r model cymdeithasol o anabledd.
Rydym yn deall nad amhariadau sy'n gwneud pobl yn anabl, ond y rhwystrau y maent yn dod ar eu traws mewn cymdeithas. Sicrhau bod eich cynnig yn chwalu rhwystrau, yn hytrach na'u creu, yw'r ffordd orau o wella cydraddoldeb i bobl anabl. I gael rhagor o wybodaeth, ewch i'r fewnrwyd a chwilio am 'model cymdeithasol'.

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| drawsnewid a phobl Drawsryweddol) | nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau penodol o ran pobl sydd wedi ailbennu eu rhywedd, neu sydd yn y broses o wneud hynny ar hyn o bryd. | unedig a chydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bydd awdurdodaethau presennol tribiwnlysoedd datganoledig yn trosglwyddo i'r system dribiwnlysoedd newydd ac yn cael eu hymgorffori ynddi. | effeithiau cadarnhaol ac felly ni asesir bod angen unrhyw fesurau lliniaru. |
| Beichiogrwydd a mamolaeth | Er ein bod yn disgwyl i'n cynigion effeithio'n gadarnhaol ar bawb, nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau penodol o ran pobl sy'n feichiog neu bobl sydd ar absenoldeb mamolaeth neu absenoldeb tadolaeth. | Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ceisio creu strwythur unedig a chydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bydd awdurdodaethau presennol tribiwnlysoedd datganoledig yn trosglwyddo i'r system dribiwnlysoedd newydd ac yn cael eu hymgorffori ynddi. | Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol ac felly ni asesir bod angen unrhyw fesurau lliniaru. |
| Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd | Er ein bod yn disgwyl i'n cynigion effeithio'n gadarnhaol ar bawb, | Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ceisio creu strwythur | Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y cynigion yn cael |

| **Grŵp neu nodwedd warchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| ethnig, Sipsiwn a Theithwyr a Mudwyr, Ceiswyr Lloches a Ffoaduriaid) | nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau penodol o ran hil. | unedig a chydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bydd awdurdodaethau presennol tribiwnlysoedd datganoledig yn trosglwyddo i'r system dribiwnlysoedd newydd ac yn cael eu hymgorffori ynddi. | effeithiau cadarnhaol ac felly ni asesir bod angen unrhyw fesurau lliniaru. |
| Crefydd, cred a diffyg cred | Er ein bod yn disgwyl i'n cynigion effeithio'n gadarnhaol ar bawb, nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau penodol o ran hil. | Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ceisio creu strwythur unedig a chydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bydd awdurdodaethau presennol tribiwnlysoedd datganoledig yn trosglwyddo i'r system dribiwnlysoedd newydd ac yn cael eu hymgorffori ynddi. | Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol ac felly ni asesir bod angen unrhyw fesurau lliniaru. |
| Rhyw / Rhywedd | Er ein bod yn disgwyl i'n cynigion effeithio'n gadarnhaol ar bawb, | Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ceisio creu strwythur | Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y cynigion yn cael |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| | nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau penodol o ran rhyw neu rywedd pobl. | unedig a chydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bydd awdurdodaethau presennol tribiwnlysoedd datganoledig yn trosglwyddo i'r system dribiwnlysoedd newydd ac yn cael eu hymgorffori ynddi. | effeithiau cadarnhaol ac felly ni asesir bod angen unrhyw fesurau lliniaru. |
| Cyfeiriadedd rhywiol (Lesbiaidd, Hoyw a Deurywiol) | Er ein bod yn disgwyl i'n cynigion effeithio'n gadarnhaol ar bawb, nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau penodol o ran cyfeiriadedd rhywiol pobl. | Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ceisio creu strwythur unedig a chydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bydd awdurdodaethau presennol tribiwnlysoedd datganoledig yn trosglwyddo i'r system dribiwnlysoedd newydd ac yn cael eu hymgorffori ynddi. | Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol ac felly ni asesir bod angen unrhyw fesurau lliniaru. |

| **Grŵp neu nodwedd warchodedig** | **Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?** | **Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)** | **Sut byddwch chi’n lliniaru’r effeithiau?** |
|---|---|---|---|
| Priodas a phartneriaeth sifil | Er ein bod yn disgwyl i'n cynigion effeithio’n gadarnhaol ar bawb, nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau penodol o ran priodas neu bartneriaeth sifil | Mae’r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ceisio creu strwythur unedig a chydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig sy’n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bydd awdurdodaethau presennol tribiwnlysoedd datganoledig yn trosglwyddo i’r system dribiwnlysoedd newydd ac yn cael eu hymgorffori ynddi. | Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol ac felly ni asesir bod angen unrhyw fesurau lliniaru. |
| Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed | Mae Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant wedi’i gwblhau ac mae ar gael yn Atodiad A.<br><br>Er ein bod yn disgwyl i'n cynigion effeithio’n gadarnhaol ar bawb, nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau penodol o ran plant a phobl ifanc. | Mae’r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ceisio creu strwythur unedig a chydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig sy’n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bydd awdurdodaethau presennol tribiwnlysoedd datganoledig yn trosglwyddo i’r system dribiwnlysoedd newydd ac yn cael eu hymgorffori ynddi. | Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol ac felly ni asesir bod angen unrhyw fesurau lliniaru. |

| Grŵp neu nodwedd warchodedig | Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig? | Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth) | Sut byddwch chi'n lliniaru'r effeithiau? |
|---|---|---|---|
| Aelwydydd incwm isel | Er ein bod yn disgwyl i'n cynigion effeithio'n gadarnhaol ar bawb, nid ydym wedi nodi unrhyw oblygiadau penodol o ran aelwydydd incwm isel. | Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ceisio creu strwythur unedig a chydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bydd awdurdodaethau presennol tribiwnlysoedd datganoledig yn trosglwyddo i'r system dribiwnlysoedd newydd ac yn cael eu hymgorffori ynddi. | Yn gyffredinol, rhagwelir y bydd y cynigion yn cael effeithiau cadarnhaol ac felly ni asesir bod angen unrhyw fesurau lliniaru. |

## 3. Hawliau Dynol a Chonfensiynau'r Cenhedloedd Unedig

**Ydych chi'n credu y bydd y polisi hwn yn effeithio'n gadarnhaol neu'n negyddol ar hawliau dynol pobl?**

3.1. Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol yn gwarchod hawliau a rhyddid dynol sylfaenol fel y nodir yn ei 14 erthygl. Mae'n gwarchod yr hawl i ryddid a diogelwch (Erthygl 5) a'r hawl i dreial teg, gan gynnwys wrth benderfynu ar hawliau a rhwymedigaethau sifil (Erthygl 6), ac mae'n gwahardd gwahaniaethu (Erthygl 14). Mae'r Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol wedi'i ymgorffori yng nghyfraith y DU gan Ddeddf Hawliau Dynol 1998.

3.2. Ni all Weinidogion Cymru weithredu mewn ffordd sy'n anghydnaws ag unrhyw un neu ragor o hawliau'r Confensiwn yn rhinwedd adran 81 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

3.3. Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn cynnwys cyfuno tribiwnlysoedd datganoledig ar wahân mewn un strwythur unedig a chydlynol sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Bwriad y cynigion yw

creu system dribiwnlysoedd fodern i Gymru, gan ganolbwyntio ar fynediad at gyfiawnder ac ar anghenion defnyddwyr tribiwnlysoedd, a all fod yn hyderus bod y system yn gweithredu'n annibynnol ac mewn ffordd sy'n dyfarnu ar eu hanghydfodau yn gyfiawn, yn effeithlon ac yn brydlon.

3.4. Ein hasesiad cychwynnol yw bod y cynigion yn gydnaws â hawliau'r Confensiwn ac nad ydynt yn effeithio'n negyddol ar hawliau dynol pobl.


## C. ASESIAD O'R EFFAITH AR Y GYMRAEG

Cymraeg 2050 yw ein strategaeth genedlaethol Cymru ar gyfer cynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg i filiwn erbyn 2050.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo'n llwyr i'r strategaeth newydd, gyda'r targed o filiwn o siaradwyr wedi'i gynnwys yn ei Rhaglen Lywodraethu. Mae iaith Gymraeg ffyniannus hefyd wedi'i chynnwys yn un o'r 7 nod llesiant yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Mae gennym hefyd rwymedigaeth statudol i ystyried yn llawn effeithiau ein gwaith ar y Gymraeg. Mae hyn yn golygu y dylai unrhyw bolisi gan Lywodraeth Cymru ystyried sut mae ein polisïau'n effeithio ar yr iaith a'r rheini sy'n ei siarad.

Mae tair thema gydgysylltiedig i strategaeth Cymraeg 2050:



Mae'r penawdau o dan bob thema yn amlinellu cwmpas gweithgareddau sy'n gallu effeithio ar yr iaith.

Fel rheol gyffredinol, os oes gan eich polisi'r potensial i effeithio ar bobl, bydd yn effeithio mewn rhyw ffordd ar siaradwyr Cymraeg ac felly ar y Gymraeg.

**1. Cyfeirnod yr Asesiad o'r Effaith ar yr Iaith Gymraeg: 04/06/2023**

**2. A yw'r cynnig yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer y Gymraeg? – *Cymraeg 2050 Miliwn o siaradwyr Cymraeg* a'r Rhaglen Waith gysylltiedig ar gyfer 2017-2021?**

2.1. Mae'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn cynnwys cyfuno tribiwnlysoedd datganoledig ar wahân mewn un strwythur unedig a chydlynol sy'n cynnwys Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru a Thribiwnlys Apêl Cymru. Mae Tribiwnlys Apêl arfaethedig Cymru yn arwyddocaol iawn gan mai hwn fydd y corff apeliadol cyntaf yn hanes cyfreithiol Cymru. O'r herwydd, bydd yn gyfrwng i ddatblygu cyfraith ddatganoledig Cymru mewn ffordd gydlynol ac unigryw i Gymru. Felly, bydd y system dribiwnlysoedd newydd yn gweithredu fel cyfanwaith cydlynol gydag anghydfodau ac apeliadau pellach yn cael eu hystyried a'u penderfynu gan sefydliadau yng Nghymru.

2.2. Mae cysylltiad clir rhwng y cynigion hyn a "Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg" a'r weledigaeth ar gyfer defnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd ar fywyd. Yn benodol, mae'r cynigion yn cyd-fynd â thrydedd thema strategol y strategaeth. Bydd y system dribiwnlysoedd newydd yn helpu i adeiladu'r seilwaith a'r amodau yng Nghymru lle gall y Gymraeg a'i siaradwyr ffynnu.

2.3. Credwn mai un o rolau'r corff hyd braich arfaethedig sy'n gyfrifol am weinyddu'r system dribiwnlysoedd newydd fydd casglu data a monitro dangosyddion perfformiad allweddol. Credwn y dylai hyn gynnwys dangosyddion ar ddefnyddio'r Gymraeg ar draws y system dribiwnlysoedd.

**3. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar y Gymraeg ac eglurwch sut byddwch yn mynd i'r afael â'r effeithiau hyn er mwyn gwella canlyniadau i'r Gymraeg. Sut bydd y cynnig yn effeithio ar siaradwyr Cymraeg o bob oed (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)? Dylech nodi eich ymatebion i'r canlynol wrth ateb y cwestiwn hwn, ynghyd ag unrhyw wybodaeth berthnasol arall:**

- **Sut bydd y cynnig yn effeithio ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith[15] (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?**

- **Sut bydd y cynnig yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg a dysgwyr Cymraeg o bob oed, gan gynnwys oedolion (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)?**

3.1. Bydd effaith y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn anuniongyrchol.

3.2. Yn gryno, bydd y cynigion yn ymgorffori tribiwnlysoedd datganoledig presennol mewn system dribiwnlysoedd unedig a chydlynol gyda darpariaeth gyffredin ar gyfer materion yn cynnwys penodi aelodau tribiwnlysoedd, cwynion a disgyblaeth ac ar gyfer gwneud rheolau gweithdrefnol; a bydd y system dribiwnlysoedd newydd dan oruchwyliaeth ac arweiniad barnwrol Llywydd Tribiwnlysoedd Cymru a fydd â rôl uwch. Ar ben hynny, bydd yr egwyddor annibyniaeth farnwrol yn ganolog i'r ffordd y bydd system newydd y tribiwnlysoedd yn cael ei gweinyddu drwy gorff hyd braich newydd ar wahân i Lywodraeth Cymru.

3.3. Mae Tribiwnlys y Gymraeg ymysg cyrff Tribiwnlysoedd Cymru a fydd yn cael eu hymgorffori yn y system dribiwnlysoedd newydd. Bydd awdurdodaeth bresennol Tribiwnlys y Gymraeg yn cael ei threfnu yn Siambr y Gymraeg y Tribiwnlys Haen Gyntaf, a bydd hawliau i apelio ymhellach i Dribiwnlys Apêl Cymru, y corff apeliadol cyntaf yn hanes cyfreithiol Cymru. Bydd effeithiau hirdymor ein cynigion yn berthnasol i ddefnyddwyr Tribiwnlys y Gymraeg fel y byddant ar gyfer defnyddwyr eraill y tribiwnlys. Mae'r rhain yn codi, er enghraifft, o'r annibyniaeth strwythurol fwy rydym yn ei gynnig ar gyfer y system dribiwnlysoedd newydd, a datblygiad cyfreitheg Gymreig benodol dros amser drwy benderfyniadau Tribiwnlys Apêl Cymru.

3.4. Mae un system gydlynol ar gyfer tribiwnlysoedd datganoledig yn creu'r amgylchedd i hwyluso'r broses o ddarparu gwasanaethau tribiwnlysoedd drwy gyfrwng y Gymraeg. Er y bydd yr effaith ar y Gymraeg yn anuniongyrchol, rydym o'r farn y bydd yn effaith fanteisiol. Nid ydym yn credu y bydd y cynigion yn cael effeithiau niweidiol ar y Gymraeg.

3.5. Nid ydym yn credu y bydd y cynigion yn effeithio'n sylweddol ar gynaliadwyedd cymunedau Cymraeg eu hiaith.

---

[15] Gall y rhain fod yn gymunedau gwledig clos, rhwydweithiau cymdeithasol gwasgaredig mewn lleoliadau trefol, ac mewn cymunedau rhithiol sy'n ymestyn dros ardaloedd daearyddol.

3.6. Gallai'r cynigion i ymgorffori awdurdodaeth paneli apêl gwaharddiadau o ysgolion yn Siambr Addysg arfaethedig Tribiwnlys Haen Gyntaf Cymru gael effaith anuniongyrchol ar y Gymraeg o ran mynediad at addysg cyfrwng Cymraeg mewn ardaloedd lle gallai argaeledd y ddarpariaeth fod yn fwy cyfyngedig. Nid ydym yn credu mai ar chwarae bach mae'r rhai sy'n ymwneud â gwahardd plentyn o ysgol yn ystyried y penderfyniadau hynny, ond mae canlyniadau gwahardd o'r ysgol i blentyn ac i ysgol o'r arwyddocâd mwyaf. Felly, mae'n hanfodol bod y broses gwneud penderfyniadau yn gyson ac yn gwbl annibynnol, ac rydym yn credu y bydd ein cynigion yn cyflawni hyn.

- **Sut bydd y cynnig yn effeithio ar y gwasanaethau[16] sydd ar gael yn Gymraeg (effeithiau cadarnhaol a/neu niweidiol)? (ee iechyd a gwasanaethau cymdeithasol, trafnidiaeth, tai, digidol, ieuenctid, seilwaith, yr amgylchedd, llywodraeth leol ac ati)**

3.7. Mae Tribiwnlys Tir Amaethyddol Cymru, Tribiwnlys Adolygu Iechyd Meddwl Cymru, Tribiwnlys Eiddo Preswyl Cymru, Tribiwnlys Addysg Cymru a Thribiwnlys Prisio Cymru yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg.[17] Cymraeg a Saesneg yw ieithoedd Tribiwnlys y Gymraeg, ac mae'n rhaid i'r Tribiwnlys eu trin yn gyfartal.[18] Mae Panel Dyfarnu Cymru yn datgan ei fod wedi ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn y gwasanaethau a ddarperir.[19]

3.8. Nid ydym yn rhagweld y bydd y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn cael effaith niweidiol ar y ddarpariaeth o wasanaethau sydd ar gael yn y Gymraeg.

- **Sut byddwch chi'n sicrhau bod pobl yn gwybod am wasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg a'u bod yn gallu cael gafael arnynt a'u defnyddio mor hawdd ag y gallant yn Saesneg? Pa dystiolaeth / data ydych chi wedi'u defnyddio fel sail i'ch asesiad, gan gynnwys tystiolaeth gan siaradwyr Cymraeg neu grwpiau buddiant iaith Gymraeg?**

3.9. Mae'r tribiwnlysoedd datganoledig presennol yn darparu gwasanaethau yn y Gymraeg ac maent yn ddarostyngedig i Safonau perthnasol y Gymraeg, neu'n cydymffurfio â nhw. Mae gwybodaeth am Dribiwnlysoedd Cymru ar gael drwy'r wefan ar gyfer pob tribiwnlys unigol ac mae'r gwefannau hynny ar gael yn Gymraeg. Ar ôl creu'r corff hyd braich arfaethedig ac wrth i awdurdodaethau

---

[16] Nod Strategaeth y Gymraeg yw cynyddu ystod y gwasanaethau a gynigir i siaradwyr Cymraeg, a gweld cynnydd yn y gwasanaethau Cymraeg a ddefnyddir.

[17] Atodlen 6 i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 4) 2016 (SI2016/405 (W.125)). Mae'r Tribiwnlys Addysg yn dilyn yr un safonau â'r rhai a bennwyd ar gyfer Tribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru (gweler Adroddiad Blynyddol Tribiwnlys Addysg Cymru ar Safonau'r Gymraeg, mis Ebrill 2021 i fis Mawrth 2022).

[18] Rheol 3 a 6 Rheolau Tribiwnlys y Gymraeg 2015 (SI2015/1028 (W.76)).

[19] Y Gymraeg | Panel Dyfarnu Cymru (llyw.cymru)

tribiwnlysoedd datganoledig presennol drosglwyddo i Dribiwnlys Haen Gyntaf Cymru, rydym yn rhagweld y bydd gwybodaeth ar gael yn yr un modd yn y Gymraeg a'r Saesneg.

- **Pa dystiolaeth arall fyddai'n eich helpu i gynnal asesiad gwell?**

3.10. Byddwn yn parhau i adolygu'r Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg wrth i gynigion deddfwriaethol ddatblygu. Rydym yn croesawu sylwadau gan ymgyngoreion, gan gynnwys a oes unrhyw effeithiau, cadarnhaol neu negyddol, nad ydym wedi'u nodi mewn perthynas â'r iaith Gymraeg.

- **Sut byddwch chi'n gwybod a yw eich polisi'n llwyddiant?**

3.11. Fel rhan o'r prosiect diwygio tribiwnlysoedd, y mae deddfwriaeth sylfaenol yn un o'r elfennau allweddol i'r cyflawni, byddwn yn datblygu cynllun gweithredu i weithredu'r diwygiadau a wneir gan y newidiadau deddfwriaethol yr ydym yn eu cynnig. Byddwn yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid allweddol i ddylunio a datblygu adolygiad ar ôl gweithredu o'r newidiadau deddfwriaethol y bydd ein cynigion yn eu cyflawni, yn ogystal ag adolygiad o'r gwaith o gyflawni'r prosiect diwygio tribiwnlysoedd. Yn yr hirdymor, bydd llwyddiant yn cael ei fesur yn ôl profiad defnyddwyr tribiwnlysoedd a mynediad at gyfiawnder y mae'r gwasanaeth tribiwnlys newydd yn ei ddarparu, gan gynnwys y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau drwy gyfrwng y Gymraeg.

## D. ASESIAD O'R EFFAITH AR FIOAMRYWIAETH

Mae cwestiynau 1 i 9 yn berthnasol i bob polisi.

Mae cwestiynau 10 i 16 yn berthnasol i'r polisïau neu'r cynigion sy'n ymwneud ag adeiladu neu reoli tir a/neu'r môr.

**Gwreiddio bioamrywiaeth**

**1. Sut bydd eich cynnig yn integreiddio bioamrywiaeth i'r broses o wneud penderfyniadau?**

1.1. Mae Adran 6 o Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 ("Deddf 2016") yn gosod dyletswydd ar awdurdod cyhoeddus i geisio cynnal a gwella bioamrywiaeth wrth arfer swyddogaethau mewn perthynas â Chymru ac, wrth wneud hynny, gwella cydnerthedd ecosystemau, i'r graddau y mae hynny'n gyson ag arfer y swyddogaethau hynny'n briodol. Mae'r ddyletswydd hon yn berthnasol i Brif Weinidog Cymru, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru. Mae'r Asesiad hwn o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn nodi'r effeithiau a'r cyfleoedd cadarnhaol i weithredu dros fioamrywiaeth sy'n deillio o'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn ar gyfer system dribiwnlysoedd newydd i Gymru.

1.2. Mae "bioamrywiaeth" yn cael ei ddiffinio yn adran 26 o Ddeddf 2016 fel amrywiaeth organebau byw, boed ar lefel geneteg, rhywogaeth neu ecosystem. Nid yw'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ymwneud ag organebau byw nac yn ymwneud â thir na dŵr. Yn y gwaith a wnaed i ddatblygu'r Papur Gwyn a'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a'r Asesiad Effaith Integredig drafft, nid oes unrhyw dystiolaeth benodol wedi'i chasglu ar effaith cynigion ar fioamrywiaeth, boed yn negyddol neu'n gadarnhaol.

1.3. Ein casgliad yn yr Asesiad Effaith Integredig drafft hwn yw nad yw ein cynigion yn debygol o effeithio ar fioamrywiaeth. Byddwn yn parhau i adolygu'r mater wrth i gynigion deddfwriaethol ddatblygu.

**2. A yw eich cynnig wedi sicrhau bod bioamrywiaeth yn cael ei hystyried mewn penderfyniadau busnes?**

2.1. Fel y nodwyd, mae'r Prif Weinidog, y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidogion Cymru yn ddarostyngedig i'r ddyletswydd o dan adran 6 o Ddeddf 2016 i gynnal a gwella bioamrywiaeth a chydnerthedd ecosystemau. Ein casgliad rhagarweiniol yw nad yw'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn debygol o effeithio ar fioamrywiaeth.

2.2. Mae'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a baratowyd ochr yn ochr â'r Asesiad Effaith Integredig drafft yn asesu manteision ac anfanteision y cynigion.

**3. Sut mae eich cynnig yn gwella dealltwriaeth ac yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth, gan annog eraill i weithredu?**

3.1. Yn y gwaith a wnaed i ddatblygu’r Papur Gwyn, yr Asesiad Effaith Rheoleiddiol drafft a’r Asesiad Effaith Integredig drafft, nid oes unrhyw dystiolaeth benodol wedi’i chasglu ar y graddau y mae’r cynigion yn codi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd bioamrywiaeth nac yn annog eraill i weithredu.

**<u>Gwella ein tystiolaeth, ein dealltwriaeth a'n monitro</u>**

**4. Ydych chi wedi defnyddio’r dystiolaeth orau sydd ar gael o fioamrywiaeth i lywio eich cynnig a’r asesiad hwn?**

4.1. Mae’r rhestrau o rywogaethau a chynefinoedd o’r pwysigrwydd pennaf a gyhoeddwyd o dan Adran 7 o Ddeddf 2016 a’r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol wedi cael eu hystyried ac nid oes unrhyw faterion uniongyrchol yn codi.

**5. Ydych chi wedi defnyddio’r wybodaeth ddiweddaraf am yr effeithiau allweddol ar fioamrywiaeth i wneud penderfyniadau ar sail tystiolaeth?**

5.1. Nid yw’r gwaith rydym wedi’i wneud hyd yma wedi nodi unrhyw dystiolaeth sy’n awgrymu bod y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ysgogi newid penodol neu ffactorau negyddol neu gadarnhaol sy’n effeithio ar fioamrywiaeth.

**6. A all eich cynnig gyfrannu at ein corff gwybodaeth ar gyfer bioamrywiaeth?**

6.1. Mae’n annhebygol y bydd y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn cyfrannu at ein gwybodaeth am fioamrywiaeth.

**<u>Llywodraethu a chefnogi’r gwaith o weithredu bioamrywiaeth</u>**

**7. A all eich cynnig gefnogi gweithredu bioamrywiaeth mewn unrhyw ffordd?**

7.1. Mae’n annhebygol y bydd y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn cefnogi’r gwaith o weithredu dros fioamrywiaeth.

**8. A all eich cynnig helpu i feithrin capasiti ar gyfer gweithredu bioamrywiaeth?**

8.1. Mae’n annhebygol y bydd y cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn adeiladu capasiti ar gyfer gweithredu dros fioamrywiaeth.

**9. Ydych chi wedi cofnodi penderfyniadau a chamau gweithredu i gynnal a gwella bioamrywiaeth?**

9.1. Yn y gwaith rydym wedi'i wneud hyd yma i ddatblygu cynigion i ddiwygio'r system dribiwnlysoedd yng Nghymru, nid ydym wedi nodi penderfyniadau i gynnal a gwella bioamrywiaeth. Wrth i ni ddatblygu cynigion deddfwriaethol, byddwn yn parhau i adolygu'r mater ac yn cofnodi unrhyw benderfyniadau'n briodol.

**Mae cwestiynau 10 i 16 yr Asesiad o'r Effaith ar Fioamrywiaeth yn ymwneud â'r amgylchedd tir a môr. Nid yw'r cynigion a nodir yn y Papur Gwyn yn ystyried yr amgylchedd tir na môr ac felly nid yw'r cwestiynau'n berthnasol.**